



Erlynwyr – Adran Twyll Arbenigol

Erlynydd y Goron £32,632 - £37,810 | Uwch Erlynydd y Goron £42,728 - £58,679 |
Erlynydd Arbenigol £50,560 - £68,518 | Uwch Erlynydd y Goron £62,437 - £74,450
Bydd lwfans recriwtio a chadw o £3,150 i swyddi sydd yn Llundain.

Dewch i adnabod y nifer wynebaw o dwyll

Fel Erlynydd gyda'r Adran Dwyll Arbenigol fe gewch gyfle i ddelio gydag ystod eang o erlyniadau, rhai cymhleth a rhai a frofil uchel iawn gan ddefnyddio sgiliau fydd yn erbyn rhai o dimoedd amddiffyn gorau ar draws Cymru a Lloegr.

Mae ein gwaith yn cynnwys achosion mawr o dwyll difriol a chymhleth, llwgrwobrwyath a llygredd, gan gynnwys Troseddu Cyfundrefnol Rhyngwladol. Er mwyn sicrhau cyfiawnder rydym yn gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau Cyllid a Thollau EM (HMRC), Asiantaeth Troseddau Cenedlaethol, yr hheddlu, Gwasanaeth Iechyd Gwladol, Adran Gwaith a Phensiynau, a Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig.

Rydym yn brwydro yn erbyn y niwed y mae twyll yn achosi ar draws ein cymdeithas. Mae gwaith yr adran wedi ei rhannu mewn i ddau, gwaith ag elfen gyllidol a gwaith heb elfen gyllidol. Mae'r gwaith cyllidol yn cynnwys troseddau sydd yn gysylltiedig ag osgoi talu treth a gwneud ceisiadau twyllodrus am fudd-daliadau – mae mwy na 6,000 o erlyniadau unigol yn flynyddol.

Mae'r elfen heb gyllid yn cynnwys sawl trosedd. Gall rhain amrywio o werthu cig ceffyl fel math arall o gig neu gwerthu meddyginiaethau ffug. Rydym hefyd yn gweithio ar bob math o rheoli allforion mewn achosion yn cynnwys arfau tanio, masnachu dynion ynghŷd â gwyngalchu arian.

Yn ogystal a hyn mae gennym dim o uwch erlynwyr arbenigol sydd yn gweithio gyda HMRC ar fenter sydd yn canolbwyntio ar osgoi talu treth corfforaethol a threth cyfoeth gan unigolion yn defnyddio cyfrifon alltraeth.

Y cyfleoedd

Rhoi cyngor cynnar yn ystod ymchwiliad, gwerthuso tystiolaeth, gwneud penderfyniadau i gyhuddo ac erlyn, paratoi achosion, atafaeliad ac apêl. Byddwch yn rhan o'r broses o'r dechrau i'r diwedd. Bydd ymweliadau i'r llys fel adfocad, ond yn fwy aml yn ystod treialon byddwch yn rhoi cyfarwyddiadau fel cyfreithiwr sydd a chyfrifoldeb am yr achos.

Fe fydd gwario amser yn y Adran Dwyll Arbenigol yn cynnig profiad eang na chewch yn unman arall, gan gynnwys amlygiad cynnar i achosion mawr a chyfle i wella eich hunan yn broffesiynol.

Mae hyn yn gyfle i gyfreithwyr a bargyfreithwyr cymwysedig sydd wedi eu lleoli yn Llundain, Manceinion, Lerpwl, Birmingham, Leeds a Caerdydd. Mae mwy o fanylion ar gael drwy glicio ar y ddolen isod.

Pwy all ymgeisio

Rhaid eich bod yn gymwysedig i ymarfer fel cyfreithiwr neu bargyfreithiwr. Falle eich bod yn gweithio i asiantaeth perthnasol neu yn rhan o dîm twyll arbennig mewn banc neu gorfforaeth. Mae sgiliau cyfathrebu da yn hanfodol, yn unol a ymroddiad a brwdfrydedd i lwyddo yn y swyddi heriol yma.

Sut i ymgeisio

Ewch i wefan [Civil Service Jobs](#) er mwyn ymgeisio am swydd Erlynydd y Goron.

Darllenwch mwy am ein hachosion

Twyll bancio tir

Anogwyd nifer o dioddefwyr i fuddsoddi mewn tir lle oedd adeiladau yn mynd i gael eu codi ac wedyn eu gwerthu. Fodd bynnag doedd dim hawl cynllunio ar y tir; roedd yn rhan o'r llain werdd ac yn dir amaethyddol yn unig. Ni ddatgelwyd hyn i unrhyw un o'r 259 o fuddsoddwyr a wnaeth fuddsoddi £3.5miliwn yn y cynllun. Dedfrydwyd 5 person i 29 mlynedd o garchar ym mis Mehefin 2016. Mae'r uned yn gweithio i atafaelu elw troseddau.

Detector ffrwydradau ffug

Yn dilyn pryder rhyngwladol dechreuwyd ymchwiliad i bryderon o ddefnydd o ddyfais ffug i ddarganfod ffrwydradau a sylwedd gwaharddedig. Roedd y ddyfais ffug yn cael ei gwerthu dros y byd, gan gynnwys Iraq ac yn peryglu bywydau. Rhwng 2013 a 2016 dedfrydwyd 4 o bobl. Afaeliwyd sawl miliwn o bunnau a gorfodwyd iddynt dalu dirwy.

£3m o fuddsoddiad ffug

Fe wnaeth Richard Valentine fuddsoddi arian ei ddioddefwyr drwy gamblo ar y marchnadoedd tramor gan ddweud celwydd wrthynt am gwerth eu harian. Anogwyd y dioddefwyr i fuddsoddi mwy o'i harian, yn aml iawn ei cynilon i gyd. Wedi'r i'r heddlu ddarganfod cyfaddefiad ar gyfrifiadur Valentine, fe blediodd yn euog a cafodd ei ddedfrydi i 4 blynedd o garchar ym mis Medi 2015. Mae'r achos yn parhau er mwy ceisio ailennill £1m i ddioddefwyr.

Gadewch i ni glywed wrth rhai o erlynwyr yr adran

Elizabeth Jenkins, Dirprwy Bennaeth Adran Dwyll Arbenigol

"Mae'r ffyrdd o gyflawni trosedd yn ddi-ben-draw i unigolion elwa yn ariannol. Mae'n rhyfedd pa mor greadigol mae troseddwyr yn gallu bod".

Naheed Hussain, Dirprwy Bennaeth Adran Twyll Arbenigol

"Mae gwaith SFD yn ddiddorol dros ben yn enwedig y gwaith sydd ddim ag elfen gyllidol iddo. Enghreifftiau o achosion mae SFD wedi ymdrin â nhw yw gwerthu viagra ffug, gwerthu llong rhyfel bach heb drwydded, gwerthiant o ddetector bom ffug ac hefyd achosion ynglŷn â hawliau eiddo ddeallusol, yn cynnwys golygu ffrydio ffilmiau. Mae 'r gwaith yn amrywiol iawn".

Kevin Hansford , Pennaeth Uned

"Mae'r gwaith yn ddiddorol, yn wahanol ac yn wobrwyl. Mae'r tîm yn gefnogol ac yn tynnu at eu gilydd. Fe drosglwyddais o CPS Llundain ac yn ddiweddar wedi cael dyrchafiad i Bennaeth Uned o fewn yr Adran".